Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Cymru ac Affrica

## Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol

## Llawlyfr Cyfranogwyr

# Trosolwg o'r rhaglen Cymru ac Affrica

Mae'r rhaglen Cymru ac Affrica yn hyrwyddo Cymru agored – sy'n gyfarwydd ac yn gysylltiedig â materion byd-eang, gan weithredu ar y cyd i wella lles cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd Affrica Is-Sahara a Chymru drwy amrywiaeth o brosiectau sy'n fuddiol i'r ddwy ochr, i gefnogi Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Mae Cymru ac Affrica yn adlewyrchu'r galw yng Nghymru am gyfraniad amlwg o Gymru i fynd i'r afael â thlodi byd-eang.

Mae'r egwyddorion partneriaeth sy'n sail i'r gwaith hwn yn seiliedig ar gysyniadau craidd cymuned, parch gan y naill at y llall a budd i'r ddwy ochr. Mae model cymorth Cymru ac Affrica wedi'i labelu'n 'fodel Cymreig' gan lawer o'n partneriaid fel mynegiant o falchder yn yr hyn y mae Cymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, yn ei gyflawni. Mae'r holl brosiectau a gefnogir gan y rhaglen o fudd i Gymru, ac mae gweithgareddau a ariennir wedi cynnwys:

- canolbwyntio ar y gymuned Affricanaidd yng Nghymru
- grwpiau masnach deg
- cysylltiadau iechyd a chymunedol
- newid hinsawdd.

Ochr yn ochr â hyn, mae'r rhaglen wedi datblygu ei rhaglen unigryw ei hun gyda Mbale yn Uganda a ledled Lesotho a Namibia.

## Cefndir y Rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol

Mae rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfle i unigolion o'r sector cyhoeddus, y sector busnes a'r trydydd sector yng Nghymru dreulio hyd at wyth wythnos yn Affrica Is-Sahara yn gweithio ar brosiectau sydd â'r nod o wella eu sgiliau arwain a sicrhau canlyniad datblygiadol i'r bobl sy'n eu lletya.

Mae'r rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol yn rhaglen arweinyddiaeth unigryw sy'n ymestyn ac yn herio cyfranogwyr, gan fynd â nhw y tu hwnt i'r ffiniau y maent yn teimlo'n gyfforddus oddi mewn iddynt a chaniatáu iddynt weithio'n fwy creadigol a dyfeisgar.

**Ers 2007, mae'r rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol wedi darparu lleoliadau heriol mewn gwledydd yn Affrica Is-Sahara fel Uganda, Lesotho, Namibia, Zambia a Cameroon. Mae'r amcanion cyffredinol ar gyfer y lleoliadau hyn wedi canolbwyntio'n gryf ar wella sgiliau cyfranogwyr wrth gyfrannu at Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig ac ychwanegu gwerth at y cysylltiadau presennol rhwng Cymru ac Affrica.**

Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at unigolion sy'n arwain, neu'n dyheu am arwain, ac sydd am brofi ac addasu eu rhinweddau arwain mewn cyd-destun rhyngwladol heriol a gwerth chweil. Ochr yn ochr â'r manteision i'r unigolion a'u sefydliadau cartref, bydd lleoliadau'n sicrhau bod manteision pendant yn cael eu sicrhau wrth fynd i'r afael â thlodi byd-eang a hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac, yn benodol, ychwanegu gwerth at y prosiectau y mae rhaglen Cymru ac Affrica eisoes yn eu cefnogi.

Ar hyn o bryd mae gennym leoliadau ar gael yn y tair gwlad ganlynol:

- Lesotho
- Namibia
- Uganda

Mae detholiad o wahanol leoliadau yn y tair gwlad wahanol yn cael eu nodi'n rheolaidd ar y wefan ganlynol er gwybodaeth.

Cymru ac Affrica | LLYW.CYMRU Fodd bynnag, rydym yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr â chymwysterau addas lle gallwn geisio paru eich set sgiliau gyda'n partneriaid.

# Beth i'w ddisgwyl

Mae ceisiadau i'r rhaglen ar agor ar hyn o bryd. Cyflwynwch lythyr cais ochr yn ochr â'ch CV. Os ydych yn ffafrio hysbyseb neu wlad benodol o blith Lesotho, Namibia neu Uganda, nodwch hynny yn eich llythyr.

Byddwn yn gwahodd y rhai sy'n pasio'r cam sifftio i gyfweliad.

Ar ôl cael eich derbyn ar y rhaglen, bydd tîm Cymru ac Affrica yn dechrau'r broses baru. Mae'r broses hon yn hanfodol i sicrhau bod eich sgiliau a'ch profiad yn diwallu anghenion ein partneriaid yn Affrica.

Unwaith y bydd lleoliad wedi'i nodi, bydd tîm Cymru ac Affrica yn gweithio gyda phartneriaid yn Affrica i lunio eich Contract Lleoli, a fydd yn amlinellu disgrifiad o'ch prosiect/lleoliad penodol ynghyd â gwybodaeth am y sefydliad sy'n lletya a'r cod ymddygiad.

Rhaid i leoliadau gynnig manteision clir i Gymru ac Affrica. Os na allwn baru eich sgiliau â lleoliad ar unwaith, byddwn yn oedi eich cais tra byddwn yn ceisio dod o hyd i gyfle addas.

Bydd lleoliad Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol yn gofyn i chi arddangos cryn dipyn o wydnwch personol, o ran y dasg a neilltuwyd ac yn eich amser eich hun. Mae'n debygol y bydd amodau lleol yn eich profi ac efallai y byddwch chi'n teimlo'n unig ac wedi ynysu yn enwedig yn ystod wythnosau cynnar eich lleoliad. Fe'ch anogir i ystyried a allai unrhyw broblemau iechyd sydd gennych, neu a oedd gennych yn y gorffennol, gael eu gwaethygu drwy gymryd rhan yn y rhaglen hon.



## Cynllunio cyn lleoli

Ochr yn ochr â'r broses baru, byddwn yn dechrau'r broses cynllunio cyn lleoli. Byddwch yn gweithio'n agos gyda thîm Cymru ac Affrica. Rhestrir gweithgareddau cyn lleoli penodol isod:

- Byddwch yn mynychu cyfarfod croeso gyda thîm Cymru ac Affrica.
- Bydd angen ichi nodi ac ysgrifennu'r amcanion personol rydych chi wedi'u nodi i'w trafod gyda thîm Cymru ac Affrica. Bydd y rhain yn cael eu rhannu gyda'n partner yn Affrica i sicrhau y gall ddiwallu eich anghenion datblygu.
- Byddwch yn mynychu sesiwn hyfforddi ac ymgyfarwyddo â'r wlad, lle bydd siaradwyr yn y wlad yn cyflwyno sesiynau sy'n benodol i'r wlad yn ogystal â gwybodaeth am senarios cyffredin a allai ddigwydd yn ystod eich lleoliad.
- Byddwch yn mynychu hyfforddiant diogelu er mwyn i chi ymgyfarwyddo â senarios i fod yn ymwybodol ohonynt.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriad DBS.
- Bydd Healix, sef cyflenwr Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliad iechyd cyfrinachol. Rhaid i leoliadau fod yn destun cliriad iechyd boddhaol.
- Yn dilyn gwiriad DBS ac archwiliad iechyd llwyddiannus byddwch yn gweithio gyda thîm Cymru ac Affrica ar y trefniadau logistaidd ar gyfer eich lleoliad h.y. hediadau a fisâu.
- Unwaith y bydd eich lleoliad wedi'i gadarnhau, bydd angen ichi ymweld â'ch meddyg teulu i drafod brechiadau cyn gadael a meddyginiaeth wrth-falaria (os oes angen).
- Bydd Rheolwr y Rhaglen Leol yn trefnu eich llety a'ch cludiant drwy gydol eich lleoliad 8 wythnos.
- Byddwch yn cael copi o bolisi yswiriant cynhwysfawr Llywodraeth Cymru a fydd yn eich cwmpasu tra byddwch ar leoliad.
- Bydd Rheolwr y Rhaglen Leol yn eich cyflwyno i'r sefydliad sy'n lletya cyn ichi adael drwy e-bost, cyfleusterau fideogynadledda neu dros y ffôn. Mae'n hanfodol eich bod yn cael sgwrs gyda'r sefydliad cyn ichi adael.
- Bydd Rheolwr y Rhaglen Leol yn cynnal asesiad risg o'ch llety a'ch lleoliad cyn ichi gyrraedd, a bydd angen ichi ei ddarllen, ei wirio a'i lofnodi pan fyddwch yn cyrraedd.
- Bydd Rheolwr y Rhaglen Leol yn monitro'r sefyllfa leol yn barhaus ar gyfer unrhyw newidiadau i ddiogelwch a allai beri mwy o risg i gyfranogwyr.
- Gall tîm Cymru ac Affrica eich cyflwyno i unrhyw gyfranogwyr perthnasol yn y gorffennol a'r rhai sy'n gadael i fynd ar leoliad yr un pryd â chi.
- Byddwch yn mynychu cyfarfod cyn gadael gyda thîm Cymru ac Affrica cyn ichi adael. Yn y cyfarfod hwn byddwch yn cael pecyn cymorth cyntaf cynhwysfawr.



## Dechrau'r lleoliad

- Bydd rhywun yn cwrdd â chi ar ôl ichi gyrraedd ac yn eich hebrwng i'r maes awyr ac oddi yno os oes ei angen arnoch yn y wlad sy'n eich lletya.
- Fel arfer bydd e-sim yn ddigon, ond byddwch yn cael eich cynghori o ran yr hyn sydd ei angen ar gyfer eich lleoliad. Byddwch yn cael cerdyn SIM ffisegol i'w ddefnyddio yn eich ffôn symudol ar ôl ichi gyrraedd.
- Byddwch yn cael hyfforddiant cynefino pan fyddwch yn cyrraedd yr ardal rydych yn aros ynddi gan gynnwys gwybodaeth am ble i brynu bwyd, lleoliad peiriannau ATM a gwybodaeth leol arall.
- Byddwch yn cael eich hebrwng i siopau addas ar ôl ichi gyrraedd ble gallwch brynu hanfodion.
- Bydd Rheolwr y Rhaglen Leol yn adolygu gyda chi gopi o'r asesiad risg y mae'n rhaid ichi ei lofnodi a chytuno arno o fewn tridiau i gyrraedd. Nod y weithdrefn hon yw rhoi sicrwydd i bob parti bod unrhyw risgiau posibl wedi'u lleihau a rhoi gwybod am unrhyw risgiau na ellir eu hatal yn rhesymol. Bydd Rheolwr y Rhaglen Leol yn darparu cymorth brys 24 awr yn ogystal â gofal bugeiliol cyffredinol o ddydd i ddydd.
- Bydd Rheolwr y Rhaglen Leol yn trefnu ichi gwrdd â'r sefydliad sy'n lletya cyn gynted â phosibl a chyn diwrnod cyntaf eich lleoliad.
- Bydd Rheolwr y Rhaglen Leol yn cyfarfod yn ffurfiol â chi yn ystod wythnosau 2, 4 a 7 i adolygu cynnydd y lleoliad a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon/materion. Bydd hyn yn ychwanegol at unrhyw gymorth o ddydd i ddydd y gallai fod ei angen arnoch.
- Bydd tîm Cymru ac Affrica yn cadw mewn cysylltiad wythnosol â chi drwy gydol eich lleoliad.
- Yn ystod eich wythnos olaf, bydd angen ichi gynnal adolygiad personol o'ch lleoliad gan gynnwys crynodeb o allbynnau allweddol.
- Os bydd argyfwng, bydd Rheolwr y Rhaglen Leol yn rhoi gwybod am faterion difrifol i dîm Cymru ac Affrica yn syth ar ôl i'r cymorth cychwynnol gael ei ddarparu.
- Ar y cyd â'ch sefydliad sy'n lletya, byddwch yn trafod y camau nesaf ac yn nodi lleoliadau yn y dyfodol i'w trafod gyda Rheolwr y Rhaglen Leol yn y cyfarfod ar ddiwedd y lleoliad.

## Eich cyfrifoldebau

Fel cyfranogwr ar y rhaglen hon bydd disgwyl ichi weithio gyda'ch sefydliad partner dynodedig am gyfnod y lleoliad a chyflawni'r cynllun prosiect y cytunwyd arno hyd eithaf eich gallu. Rydych hefyd yn cynrychioli Llywodraeth Cymru ac felly mae gennych gyfrifoldebau ehangach. Rhaid ichi wneud y canlynol:

- Cymryd perchnogaeth o'ch iechyd a'ch diogelwch personol, gan sicrhau bod yr holl gyngor yn cael ei ddilyn i gadw'n ddiogel ac yn iach tra byddwch ar leoliad ac i leihau risgiau.
- Cydweithredu â chydweithwyr, gan gynnig cymorth proffesiynol lle bo'n briodol i sicrhau llwyddiant y prosiect a'r rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol.
- Hyrwyddo'r gwerthoedd Cymreig o oddefgarwch a derbyn. Mae hyn yn arbennig o wir o ran rhywioldeb. Mae camsyniadau peryglus ynghylch cyfunrywioldeb mewn sawl rhan o Affrica Is-Sahara, ac yn Uganda yn arbennig, gyda chosbau difrifol yn bosibl. Heriwch y camsyniadau hyn pan fyddwch yn teimlo'n ddiogel i wneud hynny. Bydd tîm Cymru ac Affrica yn rhoi mwy o gyngor ar y mater hwn.
- Byddwch yn ymwybodol o ddiwylliant lleol a phrofiadau byw. Efallai bod gennych sgiliau a phrofiadau nad oes gan y sefydliad sy'n eich lletya, ond bydd gan eich gwesteion ddealltwriaeth well o'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio.
- Bydd angen i chi ddangos lefel uchel o ostyngeiddrwydd ar eich lleoliad. Mae hi bron yn sicr y byddwch yn dysgu mwy na'r rhai sy'n eich lletya.
- Gweithredu fel llysgennad i'ch sefydliad a Chymru. Byddwch bob amser yn cael eich gweld fel cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ac, yn unol â hynny, mae gennym safonau a disgwyliadau uchel o ran ymddygiad

- personol.
- Llofnodi ymrwymiad i'n polisïau diogelu a pholisïau eraill.
- Cynnal y gwerthusiad y gofynnwyd amdano o'ch lleoliad a'r rhaglen gyfan.
- Bod yn barod i rannu eich profiadau gydag eraill ar ôl dychwelyd i Gymru a dod yn llysgennad ar gyfer y rhaglen.
- Gweithwyr meddygol proffesiynol yn unig: Ystyriwch yn ofalus y canlyniadau os gofynnir ichi ddarparu cymorth y tu hwnt i'ch arbenigedd.

## Yr hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn talu amdano:

- Tocynnau awyren dwyffordd. Sylwch mai dim ond hediadau sy'n ymwneud â'ch lleoliad y byddwn yn eu harchebu. Os ydych yn ymestyn eich arhosiad bydd angen ichi drefnu'n annibynnol gyda'n darparwr teithio (a thalu am) newidiadau o'r fath.
- Llety yn y wlad drwy gydol eich lleoliad.
- Brechiadau: bydd eich meddyg teulu yn darparu gwybodaeth am yr hyn y bydd ei angen arnoch. Dylech ymweld â'ch meddyg o leiaf 8 wythnos cyn teithio i drafod hyn (gan y gallai fod angen apwyntiadau mewn canolfannau meddygol amgen, archebu cyflenwadau, neu fwlch rhwng dosau ar gyfer rhai brechiadau). Byddwn yn ad-dalu'r holl gostau rhesymol gan gynnwys meddyginiaeth ar gyfer malaria (yn ôl y gofyn).
- Fisa.
- Yswiriant teithio drwy gydol eich lleoliad.
- Pecyn cymorth cyntaf a rhwyd mosgito (os oes angen).
- Teithio i'r maes awyr ac oddi yno, bydd hyn yn unol â pholisi teithio a chynhaliaeth Llywodraeth Cymru. Byddwn yn sicrhau bod materion cynaliadwyedd ac amgylcheddol wedi'u hystyried a bob amser yn ceisio sicrhau mai'r dull teithio yw'r ffordd fwyaf darbodus ac effeithiol.
- Teithio i'r maes awyr ac oddi yno yn y wlad rydych chi wedi'ch lleoli ynddi. Cludiant i'r sefydliad sy'n lletya os oes angen.
- Costau teithio rhesymol yn ymwneud â'ch lleoliad.
- Costau rhesymol ar gyfer gweithgareddau, a fydd yn gwella effaith eich lleoliad y cytunwyd arno h.y. rhedeg cwrs hyfforddi neu seminar yn y wlad. Fodd bynnag, rhaid i dîm Cymru ac Affrica gytuno ar hyn ymlaen llaw.

## Ni fydd Llywodraeth Cymru yn talu am:

- Eich costau cyflog drwy gydol eich lleoliad; rhaid i'ch cyflogwr dalu am y rhain.
- Cost newid hediadau am resymau personol.
- Dillad neu bethau ymolchi ar gyfer eich lleoliad.
- Lolfeydd maes awyr, oni chytunir fel arall.
- Diweddaru pasbort.
- Teithio yn y wlad at ddibenion personol.
- Treuliau byw neu ddiddanu cyffredinol yn y wlad, gan gynnwys costau defnyddio ffôn symudol.
- Gweithgareddau hamdden yn y wlad, gan gynnwys costau llety cysylltiedig.



# Hysbysiad Preifatrwydd

Yn unol â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018 (GDPR y DU), mae'r hysbysiad hwn yn nodi sut y byddwn yn prosesu eich data personol ar gam cyntaf y broses ymgeisio ar gyfer Rhaglen Cymru ac Affrica. Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer gwybodaeth a gesglir gan raglen Cymru ac Affrica.

## Pam ydych chi'n prosesu fy ngwybodaeth bersonol (y sail gyfreithlon)?

Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth bersonol yw'n tasg gyhoeddus; hynny yw, Erthygl 6(1 (e) o GDPR y DU: mae angen prosesu er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn Llywodraeth Cymru.

## Pa ddata personol fydd yn cael eu prosesu?

Drwy gwblhau cais ar gyfer Rhaglen Cymru ac Affrica bydd yr wybodaeth ganlynol yn cael ei phrosesu fel rhan o'r broses ymgeisio (yn unig):

- Enw llawn
- Cyfeiriad
- Dyddiad Geni
- Rhif ffôn cyswllt
- Manylion cyswllt cyflogwr
- Hanes cyflogaeth/gwybodaeth gysylltiedig a gedwir ar CV

Ni fydd Rhaglen Cymru ac Affrica yn prosesu data categori arbennig fel rhan o'r broses ymgeisio gychwynnol.

## Ydych chi'n rhannu fy nata personol gydag unrhyw un arall?

Bydd gwybodaeth a geir fel rhan o'r broses ymgeisio gychwynnol yn cael ei rhannu ag unigolion neu sefydliadau trydydd parti i ddarparu cymorth dethol a hyfforddiant.

## Ydych chi'n trosglwyddo fy nata personol i wledydd eraill?

Os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais, bydd rhaglen Cymru ac Affrica yn rhannu gwybodaeth a gafwyd fel rhan o'r broses ymgeisio gychwynnol gyda'n partneriaid yn y wlad. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei hanonymeiddio ac ni fydd y partneriaid yn gallu eich adnabod oddi wrthi.

## Pa mor hir ydych chi'n cadw fy nata personol?

Byddwn yn cadw eich data am hyd at 6 mis ar ôl cwblhau lleoliad neu waredu o fewn 1 mis os bydd cais yn aflwyddiannus yn unol ag Atodlen Cadw a Gwaredu Llywodraeth Cymru. Bydd data personol a ddarperir gennych yn cael ei storio ar system rheoli dogfennau mewnol a warchodir gan Lywodraeth Cymru.

## Pa hawliau sydd gen i?

- Mae gennych yr hawl i gael cadarnhad bod eich data'n cael ei brosesu a chael mynediad i'ch data personol.
- Mae gennych yr hawl i gywiro data personol os yw'n anghywir neu'n anghyflawn.
- Mae gennych yr hawl i ddileu data personol ac i atal prosesu o dan rai amgylchiadau.
- Mae gennych yr hawl i 'rwystro' neu atal prosesu data personol mewn rhai amgylchiadau.
- Mae gennych yr hawl i gludadwyedd data mewn rhai amgylchiadau.
- Mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu mewn rhai amgylchiadau.

# Cysylltwch â ni

Os oes gennych unrhyw ymholiadau cyffredinol am gynnwys yr hysbysiad preifatrwydd hwn neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw ran ohono, cysylltwch â ni:
CymruacAffrica@llyw.cymru

Rheolydd Data
Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

E-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymrU

## Sut ydw i'n cwyno os nad ydw i'n hapus?

Os ydych yn anhapus gydag unrhyw agwedd ar yr hysbysiad preifatrwydd hwn, neu sut mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu, cysylltwch â ni yn – CymruacAffrica@llyw.cymru

Os ydych yn dal i fod yn anfodlon, mae gennych yr hawl i gyflwyno cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO):

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Rhif ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: www.ico.gov.uk



Cymru ac Affrica

## Cysylltiadau Cymru ac Affrica

Os hoffech gysylltu â thîm Cymru ac Affrica anfonwch e-bost

**CymruAcAffrica@llyw.cymru**
**www.llyw.cymru/cymru-ac-affrica**

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54965, ISBN digidol 978-1-80853-121-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg